



Ein cyf: KS/156/20

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Mawrth 2020

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £2.5 miliwn o arian argyfwng i helpu busnesau a ddiodefodd oherwydd llifogydd stormydd Ciara, Dennis a Jorge.

Fe wnaethon ni'r cyhoeddiad yn fuan wedi'r stormydd, hynny am na ellir disgwyl i fusnesau Cymru aros yn dragwyddol tra bo Llywodraeth y DU yn penderfynu a yw am gynnig arian argyfwng neu beidio. Y cyfan rydym wedi cael ei wybod hyd yma yw y caiff cymorth ei 'basbortio' ond nid oes sôn eto pryd na sut y cawn ni unrhyw arian. Mae ymateb mor araf ac aneglur i'r llifogydd gan Lywodraeth y DU yn annerbyniol.

Busnes Cymru sy'n gweinyddu cynllun Llywodraeth Cymru, y Gronfa Cymorth Llifogydd i Fusnesau. Ei nod yw helpu Busnesau Bach a Chanolig nad ydyn nhw wedi'u hyswrio gyda chostau cychwynnol delio â'r difrod a'r anghyfleustra a achoswyd gan y stormydd. Mae £2,500 ar gael i bob busnes i'w helpu i gadw i fynd trwy'r cyfnod pan nad ydynt yn gallu masnachu.

Bydd y Gronfa ar agor rhwng 11 Mawrth ac 20 Awst 2020, gan ddibynnu ar faint o'r arian fydd ar ôl. I weld y ffurflen gais a'r canllaw ar-lein, ewch i <https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-cymorth-llifogydd> neu ffoniwch Linell Gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000. Bydd pob busnes sydd eisoes wedi holi Busnes Cymru ynghylch gwneud cais am y Grant Cymorth Llifogydd ers ei gyhoeddi yn cael ffurflen gais a chanllaw yn awtomatig.

Fel arall, gall busnesau ysgrifennu at y Gronfa Cymorth Llifogydd i Fusnesau, Busnes Cymru, Parc Bocam, Uned 14/15, Oldfield Road, Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ neu e-bostio llifogyddieffund@businesswales.org.uk.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os bydd angen help ar fusnes yn eich etholaeth i lenwi'r ffurflen gais neu yn wir, help mwy cyffredinol, yna dywedwch wrthynt i gysylltu â thîm lleol Busnes Cymru neu i ffonio'r Llinell Gymorth ar y rhif uchod. Mae cyfle i gael sgwrs fyw hefyd ar www.busnescymru.llyw.cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales